Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

Lleoliad:

Ystafell Bwyllgora 4 - Tŷ Hywel

Dyddiad: Dydd Mercher, 27 Tachwedd 2019

Amser: 09.00 - 11.47

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/5749

Yn bresennol

Categori	Enwau
Aelodau'r Cynulliad:	John Griffiths AC (Cadeirydd) Dawn Bowden AC Huw Irranca-Davies AC Mark Isherwood AC Leanne Wood AC
Tystion:	Claire Germain, Llywodraeth Cymru Julie James AC, Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol Lisa James, Llywodraeth Cymru Angharad Thomas-Richards, Llywodraeth Cymru Cath Wyatt, Llywodraeth Cymru
Staff y Pwyllgor:	Catherine Hunt (Ail Glerc) Yan Thomas (Dirprwy Glerc) Osian Bowyer (Ymchwilydd) Stephen Davies (Cynghorydd Cyfreithiol)

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau a'r cyhoedd i'r cyfarfod.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Caroline Jones.

2 Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru): sesiwn dystiolaeth 1

2.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan:

- Julie James AC, y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol
- Cath Wyatt, Rheolwr Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau
- Claire Germain, Dirprwy Gyfarwyddwr Trawsnewid a Phartneriaethau
- Angharad Thomas Richards, Pennaeth Tîm Polisi Llywodraeth Leol ac Etholiadau
- Lisa James, Dirprwy Gyfarwyddwyr Democratiaeth Llywodraeth Leol

2.2 Cytunodd y Gweinidog i ysgrifennu at y Pwyllgor er mwyn darparu rhagor o fanylion ar y materion a ganlyn:

- unrhyw ddadansoddiad a wnaed gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â chynlluniau deisebau, y cynnydd posibl yn y defnydd a wneir ohonynt gan y cyhoedd, a'r goblygiadau cost i'r prif gynghorau dros y tymor hir.
- yr amserlen ar gyfer cyd-gynhyrchu unrhyw ganllawiau a threfniadau rheoleiddio a gaiff eu creu gan y Bil.
- enghreifftiau neu dystiolaeth o drefniadau hunanasesu effeithiol sydd ar waith ar draws y byd ar hyn o bryd.

3 Papurau i'w nodi

3.1 Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru - Cynnydd o ran rhoi'r Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol ar waith

3.1a Nododd y Pwyllgor yr adroddiad gan Swyddfa Archwilio Cymru: Cynnydd o ran rhoi'r Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol ar waith

3.2 Gohebiaeth at Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru ynglŷn â gwybodaeth ychwanegol yn dilyn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Tachwedd 2019

3.2a Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth at Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yng Nghymru ynglŷn â gwybodaeth ychwanegol yn dilyn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Tachwedd 2019

4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(vi) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

4.1 Derbyniodd y Pwyllgor y cynnig.

5 Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru): trafod y dystiolaeth

5.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law o dan eitem 2.